# Eich ci a'ch babi newydd

**Os oes gennych babi ar y ffordd, nawr yw'r amser i ddechrau paratoi eich ci. Yn raddol, cyflwynwch newidiadau ac arferion yn eich cartref, trwy ddefnyddio gwobrwyon y mae eich ci yn eu mwynhau, i'w helpu i ymdopi'n dda pan ddaw'r babi.**

## Pethau i'w dechrau'n gynnar

- Meddyliwch sut allai eich amseroedd neu lwybrau cerdded newid a dechreuwch gyflwyno newidiadau
- Ceisiwch sicrhau bod y ci yn gyfarwydd â bod ar ei ben ei hun mewn ystafell arall, naill gyda'r drws ar gau neu gât ddiogelwch
- Gallech greu gofod tawel iddyn nhw i ffwrdd o'r brif ystafell fyw

## Pan fydd pethau'r babi yn cyrraedd

- Os ydych wedi derbyn neu brynu pethau i'r babi, rhowch nhw yn eu lle cyn gynted ag y gallwch fel bod eich ci yn gallu arogli a dod yn gyfarwydd â nhw
- Os oes gennych bram, gallwch ymarfer cerdded y ci ochr yn ochr â'r pram
- Ceisiwch ddefnyddio dol fel babi ffug. Cofiwch ganmol eich ci neu roi danteithion pan fyddan nhw'n cadw eu pawennau ar y llawr o amgylch y ddol
- Os oes gennych ffôn i chwarae synau babi, gall hyn helpu eich ci i ddod yn gyfarwydd â synau newydd

## Y babi'n cyrraedd

- Gofynnwch i aelod o'r teulu cerdded y ci cyn i chi ddod â'r babi adref, fel eu bod wedi ymlacio
- Yn gyntaf, dywedwch helo wrth eich ci. Yna cyflwynwch y babi mewn ystafell dawel
- Rhowch ddigonedd o ddanteithion i'ch ci am ymddygiad da.

## Adref gyda'ch babi

- Dylech wastad aros gyda'ch babi pan fydd eich ci yno
- Dylech osgoi rhoi eich babi ar y llawr neu mewn basged Moses ar y llawr
- Os oes gennych got lawr grisiau, defnyddiwch gât ddiogelwch neu dylech gadw'r cot lle na all eich ci ei droi drosodd.

## Dal yn poeni?

- Os ydych yn poeni am y ffordd y mae eich ci gyda'ch plentyn, siaradwch â'ch milfeddyg. Byddan nhw'n gallu edrych ar iechyd eich ci ac yn gallu eich cyfeirio at arbenigwr ymddygiad anifeiliaid.
- Ewch i wefan **Cyngor Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid** i ddod o hyd i arbenigwr ymddygiad yn eich ardal chi.



child accident prevention trust

Department for Environment Food & Rural Affairs

Dogs Trust

RSPCA

This work was supported by the Office for Health Improvement and Disparities (OHID)